**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd A.C. Jones (Cadeirydd)

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**

| | | | |
|---|---|---|---|
| L. Davies | P. Hughes-Griffiths | D. Jones | H. Jones |
| M.J.A. Lewis | E. Skinner | | |

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**

| | | | |
|---|---|---|---|
| S.M. Allen | K.V. Broom | B.W. Jones | S.L. Rees |

**Aelodau Cyfetholedig (Yn y Siambr):**
A. Butcher, Rhiant-lywodraethwr
A. Enoch, Rhiant-lywodraethwr
V. Kenny, Cynrychiolydd o'r Eglwys Gatholig

**Roedd yr Aelodau Cabinet canlynol yn bresennol (Yn y Siambr):**
G. Davies
A. Lenny

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
G. Morgans, Director of Education & Children's Services
S. Davies, Head of Access to Education
A. Rees, Head of Strategy and Learner Support
A Thomas, Head of Education Services and Inclusion
J. Coles, Head of Children and Families
R. Hemingway, Head of Financial Services
L. Grice, Childcare & Play Sufficiency Manager
S. Nolan, Group Accountant
D. Hall-Jones, Member Support Officer
J. Owens, Democratic Services Officer

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwir):**
L. Davies, Cyfieithydd ar y Pryd

**Siambr - Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP ac o bell - 10.00 yb - 12.18 yp**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr L.R.Bowen ac M. Thomas.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA

| Y Cynghorydd/ Swyddog | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd B. W. Jones | 4. Ymgynghori Ynghylch Strategaeth y Gyllideb Refeniw 2024/25 i 2026/27 | Mae ei mab yn bennaeth ysgol yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r Cynghorydd Jones wedi cael gollyngiad gan y Pwyllgor Safonau sy'n caniatáu iddi siarad a chyflwyno sylwadau yn unig. |
| Y Cynghorydd M.J.A.Lewis | 4. Ymgynghori Ynghylch Strategaeth y Gyllideb Refeniw 2024/25 i 2026/27 | Mae ei nith yn gweithio yn yr Adran Addysg. |
| Y Cynghorydd E. Skinner | 4. Ymgynghori Ynghylch Strategaeth y Gyllideb Refeniw 2024/25 i 2026/27 | Mae ei nith yn athrawes yn y Sir. |
| Y Cynghorydd B. W. Jones | 6. Cynlluniau Cyflawni Gwasanaeth Is-Adrannol Drafft 2024-25 | Mae ei mab yn bennaeth ysgol yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r Cynghorydd Jones wedi cael gollyngiad gan y Pwyllgor Safonau sy'n caniatáu iddi siarad a chyflwyno sylwadau yn unig. |

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch chwip waharddedig.

## 3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

## 4. YMGYNGHORI YNGHYLCH STRATEGAETH Y GYLLIDEB REFENIW 2024/25 TAN 2026/27

[NODER: Roedd y B.W. Jones, M.J.A.Lewis ac E. Skinner wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach ac wedi aros yn y cyfarfod tra oedd yr eitem yn cael ei hystyried.]

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad ar Strategaeth Cyllideb Refeniw y Cyngor 2024/25 i 2026/27 a oedd yn rhoi golwg gyfredol ar y gyllideb refeniw ar gyfer 2024/2025 ynghyd â ffigurau dangosol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2025/2026 a 2026/2027. Roedd yr adroddiad yn seiliedig ar ragamcanion y swyddogion ynghylch gofynion gwariant, ac roedd yn rhoi ystyriaeth i'r setliad amodol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 20 Rhagfyr 2023.

Er bod llawer o waith eisoes wedi'i wneud wrth baratoi'r gyllideb, dywedwyd mai datganiad sefyllfa cychwynnol oedd yr adroddiad hwn a fyddai'n cael ei ddiweddaru yn dilyn y broses ymgynghori. Yn unol â hynny, atgoffwyd yr Aelodau bod yr adroddiad wedi'i ystyried gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 15 Ionawr 2024 a bod aelodau'r Pwyllgor wedi mynychu digwyddiadau ymgynghori yn ddiweddar, a oedd yn rhoi cyfle i ddadansoddi a chael eglurhad ynghylch gwahanol agweddau ar y gyllideb.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor, bod y setliad amodol a gyhoeddwyd yn cynrychioli cynnydd cyfartalog o 3.1% ledled Cymru ar setliad 2023/24, gyda chynnydd Sir Gaerfyrddin yn 3.3% (£11.0m) Er bod y setliad ychydig yn uwch na ffigur arfaethedig y Cyngor, sef cynnydd o 3.0%, ac yn darparu £0.9m yn fwy na rhagdybiaeth wreiddiol y Cyngor, ac roedd hyn i'w groesawu, roedd y cynnydd o ran chwyddiant, codiadau cyflog a phwysau eraill ar y gwasanaeth yn llawer uwch na'r cyllid a ddarparwyd. Yn ei gyd-destun, roedd cyfanswm y cyllidebau ychwanegol oedd eu hangen yn 2024/25 i dalu costau codiadau cyflog yn unig yn £15m. Yn benodol, ni ddarparwyd unrhyw gyllid ychwanegol i fodloni'r diffyg cynhenid yn y gyllideb wrth symud ymlaen o ganlyniad i'r codiad cyflog Athrawon a bennwyd gan Lywodraeth Cymru, na dyfarniad cyflog NJC 2023 a osodwyd gan broses bargeinio cyflogau cenedlaethol.

Tynnwyd sylw'r Pwyllgor at adran 3.5 o strategaeth y gyllideb lle rhoddwyd trosolwg o gyllidebau dirprwyedig yr ysgolion i'r Aelodau. Eglurodd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau fod cynigion y gyllideb yn cynnwys arbediad o £3.5m, a oedd yn gyson â'r lefel o arbedion sydd eu hangen ar feysydd eraill o wasanaethau'r cyngor. Fodd bynnag, roedd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau yn falch o adrodd bod y gostyngiad arfaethedig i'r grant Recriwtio, Adfer, Codi Safonau wedi'i wrthdroi, a fyddai'n lliniaru'r pwysau ariannol yn rhannol.

Darparwyd i'r Pwyllgor drosolwg o'r sefyllfa wedi'i diweddaru ar y rhagolygon ariannol cyfredol, fel y nodir yn adran 4 yr adroddiad, a oedd yn ystyried y setliad dros dro a newidiadau dilysu diweddar eraill.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y wybodaeth gyllidebol fanwl ganlynol a oedd wedi'i hatodi i'r Strategaeth ac a oedd yn berthnasol i'w faes gorchwyl:-

- **Atodiad A(i)** - Crynodeb o'r arbedion effeithlonrwydd ar gyfer yr Adran Addysg a Gwasanaethau Plant.
- **Atodiad A (ii)** - Crynodeb o Bwysau Twf ar gyfer yr Adran Addysg a Gwasanaethau Plant.
- **Atodiad B** - Adroddiad monitro'r gyllideb ar gyfer yr Adran Addysg a Gwasanaethau Plant

- **Atodiad C** - Crynhoad Taliadau ar gyfer yr Adran Addysg a Gwasanaethau Plant

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau y byddai Llywodraeth Cymru yn derbyn £25m o gyllid ychwanegol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus drwy Fformiwla Barnett yn dilyn yr hwb a dderbyniodd cynghorau yn Lloegr gyda'r nod o fynd i'r afael â'u hargyfwng ariannol. Y gobaith oedd y byddai rhywfaint o'r arian ychwanegol hwn yn cael ei ddosbarthu i Awdurdodau Lleol.

Wrth gloi, dywedwyd wrth y Pwyllgor y byddai cynigion terfynol y gyllideb yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor Sir ar 28 Chwefror 2024, un diwrnod ar ôl cwblhau cyllideb Llywodraeth Cymru.

Rhoddwyd sylw i'r materion/sylwadau a godwyd gan y Pwyllgor, fel a ganlyn:-

Mynegwyd pryderon nad oedd y mecanwaith ar gyfer ariannu codiadau pensiwn athrawon a diffoddwyr tân wedi cael ei ddatrys rhwng San Steffan a Llywodraeth Cymru. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol, er y tybiwyd na fyddai'r mater yn cael effaith ar sefyllfa ariannu'r Awdurdod o ystyried y dyhead i ddatrys y mater o fewn y flwyddyn ariannol bresennol, serch hynny, roedd yn cynrychioli risg ariannol sylweddol i'r Awdurdod hyd nes y byddai cadarnhad ffurfiol yn dod i law. Ar ben hynny, pe bai cadarnhad yn cael ei dderbyn ar lefel genedlaethol, roedd y risg yn parhau mewn perthynas â dosbarthiad y cyllid ymhlith Awdurdodau Lleol.

Mewn ymateb i ymholiad ynghylch y Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid a Chyfranogiad, cadarnhawyd, fel darpariaeth anstatudol, bod y cynigion yn cynnwys gostyngiad o 10% i gostau gweithredol a gostyngiad mewn cyllid craidd dros gyfnod o dair blynedd hyd nes y byddai'r ddarpariaeth yn dibynnu ar gyllid grant. Roedd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant yn cydnabod yr effaith andwyol hirdymor bosibl ar blant a phobl ifanc a phwysleisiodd fod y cynigion yn seiliedig ar y gofyniad i gyflawni arbedion effeithlonrwydd.

Mewn ymateb i ymholiad, eglurodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant, y byddai trosglwyddo cyfrifoldeb a chyllid ar gyfer darpariaeth brecwast ysgol i ysgolion yn arwain at wasanaeth mwy effeithiol ac effeithlon, gyda chyfleoedd i ysgolion gynhyrchu incwm. Roedd ymarfer ymgynghori i fod i ddechrau yn fuan.

Cyfeiriwyd at yr arbedion effeithlonrwydd sy'n ofynnol o fewn y gyllideb a ddirprwyir i ysgolion lle mynegwyd pryder y byddai effaith lefel y gostyngiad fesul dysgwr yn cael ei deimlo'n fwy mewn ysgolion llai. Rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor bod trafodaethau'n parhau mewn ymdrech i liniaru difrifoldeb yr effaith ar ysgolion llai; fodd bynnag, amlygwyd y byddai unrhyw liniaru yn hyn o beth yn arwain at ragor o effaith ar ysgolion mwy.

Cyfeiriwyd at yr adolygiad arfaethedig o ôl troed ysgolion cynradd i gael arbedion effeithlonrwydd o £200k ar gyfer 2025/26, holodd Aelod am y nifer posibl o ysgolion a fyddai angen eu cau er mwyn cyflawni'r arbedion effeithlonrwydd. Eglurwyd bod adolygiad trylwyr o holl ysgolion Sir Gaerfyrddin yn parhau, fodd bynnag, byddai cau ysgolion llai ond yn golygu arbedion o ran costau'r safle ac amcangyfrifwyd bod y rhain oddeutu £50k-60k fesul ysgol.

Yn dilyn cais am ragor o wybodaeth am yr ysgolion a oedd mewn diffyg o ran y gyllideb, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant fod gan 4 ysgol uwchradd a 32 o ysgolion cynradd ddiffyg ar hyn o bryd.  Rhagwelwyd y byddai nifer y diffygion cyllidebol yn cynyddu yn 2024/25 a oedd yn amlygu ymhellach yr angen i ysgolion gydweithio i nodi'r posibilrwydd o rannu adnoddau.

Mewn ymateb i'r pryderon a fynegwyd, rhoddodd y Pennaeth Strategaeth a Chymorth Dysgwyr drosolwg o'r effaith niweidiol a fyddai'n digwydd o ganlyniad i ostyngiadau pellach i gyllidebau Cefnogi'r Gymraeg a Data a chyllidebau Systemau Addysg. Roedd yr Aelodau'n cydnabod y byddai toriadau staffio i'r meysydd hyn yn arwain at lai o ddarpariaeth gwasanaeth ac yn peri risg o ran gallu'r Awdurdod i gyflawni gofynion y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ac yn unol â hynny, roedd cyfleoedd cyllid grant yn cael eu harchwilio.

Wrth ystyried y cynigion arbedion, cyfeiriwyd at raglen deledu ddiweddar a oedd yn ymwneud ag ysgolion yr oedd angen eu hatgyweirio ar frys, a oedd yn cynnwys un ysgol yn y sir.  Felly, gofynnwyd am sicrwydd na fyddai'r toriadau cyllidebol arfaethedig yn effeithio ar yr amserlenni ar gyfer darparu atgyweiriadau mewn ysgolion er mwyn sicrhau amgylchedd dysgu diogel a chadarnhaol i ddisgyblion.  Eglurodd y Pennaeth Mynediad i Addysg fod yr ysgol dan sylw yn ymwneud â mater dylunio yn hytrach na mater o esgeuluso gwaith cynnal a chadw ac roedd yr Awdurdod yn monitro'r sefyllfa ac yn archwilio ffyrdd o fynd i'r afael â'r mater yn y tymor hir. Cydnabuwyd nad oedd darpariaeth y gyllideb yn talu'r holl gostau a ysgwyddwyd gan rai ysgolion o ran atgyweirio a chynnal a chadw adeiladau, ond rhoddwyd sicrwydd bod gwaith atgyweirio a chynnal a chadw yn cael eu blaenoriaethu yn unol â gofynion iechyd a diogelwch o fewn y gyllideb oedd ar gael.

Mynegodd y Pwyllgor bryder ac anfodlonrwydd bod y diffygion cronnol yn y blynyddoedd i ddod yn parhau i fod yn risg sylweddol i'r Awdurdod, fodd bynnag, nid oedd llawer o le i symud yng ngoleuni'r dyraniad cyllid gan Lywodraeth Cymru.  Yn benodol, roedd codiad cyflog athrawon y cytunwyd arno yn genedlaethol, nad oedd wedi'i ariannu gan y Llywodraeth, yn rhoi pwysau ychwanegol sylweddol ar Awdurdodau Lleol a byddai'n arwain at oblygiadau i gyllidebau ysgolion, sydd eisoes yn dynn iawn. Yng ngoleuni'r pryderon uchod, roedd y Pwyllgor o'r farn y dylid cyflwyno sylwadau ysgrifenedig i Lywodraeth Cymru a/neu Drysorlys Ei Fawrhydi fel rhan o'i broses ymgynghori ar Gyllideb y Gwanwyn 2024.

**PENDERFYNWYD:**

**4.1** **Bod yr Ymgynghoriad ynghylch y Strategaeth Cyllideb Refeniw 2024/25 - 2026/27 yn cael ei dderbyn;**

**4.2** **Bod y Crynhoad Taliadau a nodir yn Atodiad C yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo;**

**4.3** **Bod y Cadeirydd yn cyflwyno sylwadau ysgrifenedig i Lywodraeth Cymru a/neu Drysorlys Ei Fawrhydi i fynegi pryder ac anfodlonrwydd y Pwyllgor o ran y dyraniad cyllideb**

**arfaethedig ar gyfer ysgolion a dyfarniadau cyflog athrawon.**

## 5. CYNNIG GOFAL PLANT CYMRU

Cafodd y Pwyllgor adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar Gynnig Gofal Plant Cymru, ei nod oedd cefnogi teuluoedd i ddarparu gofal plant hyblyg, fforddiadwy o ansawdd uchel i hyrwyddo adfywio economaidd, lleihau'r pwysau ar incwm teuluoedd a helpu rhieni i gymryd rhan mewn gwaith, a thrwy hynny lleihau risg y teulu o dlodi. At hynny, cafodd y cynllun, a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2019, ei ariannu gan Lywodraeth Cymru ar gyfer rhieni cymwys gan geisio gwella llesiant plant drwy ddarparu profiadau gofal plant cadarnhaol a chyfoethog.

Darparwyd crynodeb o gyflwyniad y cynllun i'r Pwyllgor, a oedd yn cynnwys cyflwyno gwasanaeth digidol y Cynnig Gofal Plant Cenedlaethol yn Haf 2022 i ddarparu proses mwy syml ac unffurf o ran cofrestru a chyflwyno cais, a gwasanaeth hawliadau taliadau cyflym wythnosol i ddarparwyr.

Roedd yr adroddiad yn nodi ystadegau ar gyfer nifer y ceisiadau a gymeradwywyd ac yn manylu ar y cymorth sydd ar gael ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol drwy'r Grant Cymorth Ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru.

Adolygodd y Pwyllgor y taliadau a wnaed i Ddarparwyr Gofal Plant Sir Gaerfyrddin a oedd yn cynrychioli arbediad sylweddol i lawer o deuluoedd lleol sy'n gweithio gan helpu i gynnal darparwyr gofal plant lleol, yn enwedig yn ystod pandemig y coronafeirws.

Rhoddwyd sylw i'r materion/sylwadau a godwyd gan y Pwyllgor, fel a ganlyn:-

Mewn ymateb i ymholiad, eglurodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant, o ystyried y meini prawf cymhwysedd, y byddai'n anodd cael ffigurau cywir ynghylch nifer y rhieni/gwarcheidwaid nad oeddent wedi gwneud cais ar gyfer y cynnig gofal plant. Fodd bynnag, roedd y pwyllgor wedi cael sicrwydd drwy nodi bod yr adran wedi defnyddio strategaeth farchnata a chyfathrebu gadarn i hyrwyddo'r cynllun mewn modd cyson ac yn unol â'i nodau a'i amcanion.

Yn dilyn ymholiad, ystyriwyd bod y meini prawf cymhwysedd mewn perthynas â'r isafswm o oriau a weithiwyd yn cael eu hystyried yn un o'r prif rwystrau i gael mynediad i'r cynllun. Fodd bynnag, tynnwyd sylw at y ffaith bod Llywodraeth Cymru, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, wedi ymestyn y meini prawf cymhwysedd i gynnwys y rhai mewn addysg uwch, gweithwyr tymhorol a rhieni plant mabwysiedig.

Mewn ymateb i sylwadau a wnaed gan Aelod, dywedwyd er bod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau na fyddai'n adolygu'r gyfradd dalu am flwyddyn arall, bod yr Awdurdod yn monitro'r sefyllfa'n agos yn dilyn pryderon a godwyd nad oedd cyfradd y taliad yn gynaliadwy i rai darparwyr, ac o ganlyniad yn golygu bod rhai rhieni yn gwneud taliadau atodol.

Holwyd a oedd dosbarthiad darparwyr ledled Sir Gaerfyrddin wedi arwain at rieni/gwarcheidwaid yn gorfod defnyddio darpariaeth gofal plant y tu allan i'r ardal leol, a thrwy hynny gael effaith ganlyniadol ar y dewis o ysgolion a ddewisir.

Dywedodd Rheolwr y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant fod dadansoddiad o fylchau yn y ddarpariaeth gofal plant ar draws y sir yn cael ei gynnal bob 5 mlynedd a nodwyd bod gostyngiad yn nifer y gwarchodwyr plant mewn ardaloedd gwledig ers pandemig y coronafeirws. Er y cydnabuwyd y gallai'r diffyg darpariaeth gofal plant mewn rhai ardaloedd ddylanwadu ar y dewis o ysgolion a ddewisir gan rieni/gwarcheidwaid, cydnabuwyd hefyd y gellid priodoli amrywiaeth o amgylchiadau i'r ysgolion a ddewisir.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## 6. CYNLLUNIAU DARPARU GWASANAETHAU IS-ADRANNOL DRAFFT 2024-25

[NODER: Roedd y Cynghorydd B.W. Jones, wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach; ac arhosodd yn y cyfarfod tra oedd yr eitem yn cael ei hystyried].

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y Cynlluniau Cyflawni Gwasanaeth Is-adrannol Drafft sy'n berthnasol i'r gyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Plant ar gyfer 2024/25 fel a ganlyn:

- Mynediad i Addysg
- Gwasanaethau Plant
- Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant
- Strategaeth a Chymorth i Ddysgwyr

Roedd y Cynlluniau Cyflawni Gwasanaeth Is-adrannol Drafft yn pennu'r camau a'r mesurau strategol i'w gweithredu ym mhob isadran er mwyn i'r Cyngor wneud cynnydd mewn perthynas â'i amcanion llesiant, ei flaenoriaethau thematig a blaenoriaethau'r gwasanaeth.

O ran y Cynllun Cyflawni Gwasanaeth - Gwasanaethau Plant, roedd yr adroddiad yn cynnwys yr elfennau sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg ac yn ymwneud â'r meysydd canlynol:

- Diogelu a Phresenoldeb Ysgolion
- Seicoleg Addysg
- Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae

Eglurodd y Pennaeth Mynediad i Addysg fod y pandemig coronafeirws, Brexit a Rhyfel Wcráin wedi cyfrannu at gynnydd sylweddol mewn costau adeiladu, sydd wedi rhwystro cyflawni prosiectau sy'n gysylltiedig â'r Rhaglen Moderneiddio Addysg.

Mewn ymateb i ymholiad, rhoddodd y Pennaeth Mynediad i Addysg ddiweddariad ar gyflwyno'r ddarpariaeth Prydau Ysgol am Ddim i bob Plentyn Ysgol Gynradd y disgwylid iddo gwblhau ym mis Chwefror 2024. Yn hyn o beth, rhoddodd y Pennaeth Mynediad i Addysg ganmoliaeth i'r tîm Arlwyo ac adrannau eraill yn yr Awdurdod a oedd wedi cynorthwyo i ddarparu'r ddarpariaeth.

Dywedwyd ymhellach, er bod Llywodraeth Cymru wedi cynyddu gwerth y Prydau Ysgol Am Ddim i bob Plentyn Ysgol Gynradd o £2.90 i £3.20, nid oedd y swm yn adlewyrchu'r gwir gost i'r Awdurdod am ddarparu prydau ysgol maethlon o ansawdd uchel i bob ysgol gynradd. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant fod trafodaethau'n parhau â Llywodraeth Cymru mewn ymdrech i gymhwyso lefelau ariannu pwrpasol ar draws gwahanol siroedd o ystyried y costau ychwanegol a ysgwyddir gan ardaloedd gwledig. I gefnogi ymdrechion y Swyddogion, gofynnodd Aelod i deimladau'r Pwyllgor gael eu cyfleu i Lywodraeth Cymru o ran y fformiwla ariannu Prydau Ysgol am Ddim fel rhan o unrhyw sylwadau ysgrifenedig a wneir mewn perthynas â'r gyllideb (cofnod 4 uchod).

Mewn ymateb i gais, rhoddodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, drosolwg o'r lleoliadau noddedig ar raglen Gradd Gwaith Cymdeithasol / Gradd Meistr y Brifysgol Agored, a'i nod oedd lliniaru'r prinder cenedlaethol o weithwyr cymdeithasol. Croesawodd y Pwyllgor yr amrywiaeth o gyfleoedd sydd ar gael i weithwyr presennol a newydd i ddod yn weithwyr cymdeithasol cymwys yn y sir.

Mewn ymateb i ymholiad, rhoddodd y Pennaeth Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant wybodaeth i'r Aelodau am y sefyllfa bresennol mewn perthynas â chefnogi gwell ymddygiad ar draws ysgolion y sir. Roedd y mater cenedlaethol ynghylch safonau ymddygiad yn dirywio wedi dod yn fwy cyffredin yn dilyn pandemig y coronafeirws, a waethygwyd ymhellach gan ôl-groniad cyflyrau niwrolegol yn dilyn diagnosis gan y gwasanaeth iechyd. Roedd yr Aelodau wedi'u sicrhau bod strategaeth glir ar waith i reoli ymddygiad mewn ysgolion a oedd yn defnyddio'r dull Team Teach i reoli ymddygiad a oedd hefyd yn cymeradwyo ymyrraeth gynnar fel elfen allweddol.

Darparodd y Pennaeth Strategaeth a Chymorth Dysgwyr grynodeb o rôl yr Ymgynghorydd Addysg Awyr Agored i sicrhau diogelwch pobl ifanc sy'n mynychu gweithgareddau awyr agored.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**6.1** **Bod y Cynlluniau Cyflawni Gwasanaeth Is-adrannol Drafft sy'n berthnasol i'r gyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Plant ar gyfer 2024/25 yn cael eu cymeradwyo;**

**6.2** **Bod teimladau'r Pwyllgor y cyfeirir atynt uchod o ran y fformiwla ariannu Prydau Ysgol am Ddim yn cael eu cyfleu i Lywodraeth Cymru fel rhan o unrhyw sylwadau ysgrifenedig a wneir mewn perthynas â'r gyllideb [cofnod 4 uchod].**

## 7. EGLURHAD AM BEIDIO Â CHYFLWYNO ADRODDIAD CRAFFU

Cafodd y Pwyllgor eglurhad am beidio â chyflwyno'r adroddiad craffu ynghylch y Strategaeth Gofal Cymdeithasol 10 mlynedd .

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r eglurhad am beidio â chyflwyno'r adroddiad.**

## 8. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

Adolygodd y Pwyllgor y rhestr o eitemau ar gyfer y dyfodol a oedd i'w hystyried yn ei gyfarfod nesaf i'w gynnal ar 03 Ebrill 2024, a oedd wedi deillio o Flaengynllun Gwaith y Pwyllgor. Pwysleisiodd y Cadeirydd fod y Blaengynllun Gwaith yn ddogfen hyblyg y gellid ei diweddaru yn ôl y gofyn trwy gydol y flwyddyn wrth i wybodaeth newydd ddod i'r amlwg.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r rhestr o eitemau ar gyfer y dyfodol a oedd i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf ar 3 Ebrill 2024.**

## 9. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 01 RHAGFYR 2023

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr 2023 yn gofnod cywir.**

________________________ ________________________
**CHAIR** **DATE**